

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 ADRAN 65

TABL UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYD HACNAI

	Tariff 1 6am – 10pm	Tariff 2 10pm – 3am	Tariff 3 3am – 6am	Tariff 4
Os nad yw'r pellter cyfan yn fwy na phum rhan o ddeg o filltir.	£2.20	£2.40	£2.40	£4.40
Y pris am y pum rhan o ddeg o'r filltir gyntaf, os yw'r pellter cyfan yn fwy na hynny.	£2.20	£2.40	£2.40	£4.40
Am bob un rhan o ddeg o filltir neu ran o'r pellter hwnnw, ar gyfer milltiroedd ychwanegol (hynny yw ar ôl yr hanner milltir cyntaf)	£0.15	£0.20	£0.25	£0.30
Amser aros (y funud)	£0.15	£0.20	£0.25	£0.30

Gweithredir gordal Tariff 2 ar y mesurydd ar y Sul, ar Wyliau Banc a phob nos ar ôl 10.00 p.m. hyd 3.00 a.m.

Gweithredir gordal Tariff 3 ar y mesurydd rhwng 3.00am a 6.00am

Sylwch y bydd yn rhaid i Weithredwyr sy'n dymuno cychwyn gweithredu'r cyfnod prisiau Tariff 2 yn hwyrach na 10.00pm, a chychwyn gweithredu Tariff 3 yn hwyrach na 3am, ddangos y wybodaeth hon ar eu tabl prisiau ym mhob cerbyd.

Taliadau ychwanegol (Dewisol)	
Ffi am ddifwyno'r cerbyd.	£50.00
Ffi Archebu (os yw'r daith yn cychwyn mwy na 5 milltir o ganolfan y gweithredwr)	£ 3.00
Cerbydau sy'n cludo 5–8 teithiwr. Am bob teithiwr, os bydd MWY NA PHEDWAR teithiwr	£0.25 yr un

Fodd bynnag, rhoddir caniatâd i Berchenogion Cerbydau Hacnai godi pris sy'n is na'r prisiau uchaf a fabwysiedir ac mae gan berchenogion yr hawl i raglennu'r cyfryw daliadau is i'w mesuryddion: ar yr amod:-

1. Nad yw'r pris ar unrhyw adeg yn fwy nag uchafswm y prisiau a fabwysiedir gan y Cyngor Sir.
2. Yn unol ag Amod 8 o Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacnai **bod y tabl o'r prisiau uchaf a'r tabl sy'n dangos yr holl brisiau ychwanegol sydd wedi eu rhaglennu i'r mesurydd yn cael eu harddangos yn y cerbyd trwyddedig fel eu bod yn hawdd i bob teithiwr eu gweld.**
3. Rhaid i berchenogion gysylltu â'r Adran pan fo unrhyw newidiadau i'w gwneud i fesuryddion unrhyw gerbyd neu'r prisiau a raglennir fel y gall yr Adran ailosod y ddyfais a sicrhau bod yr holl brisiau yn cael eu harddangos.

Gweithredir gordal Tariff 4 ar y mesurydd ar bob achos o logi sy'n dechrau ar Ddydd Nadolig a Dydd Calan.

Dylai unrhyw Berchennog sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynghylch yr uchod gysylltu â Swyddogion Trwyddedu yr Adran drwy ffonio 0845 6580445.